Mehefin 2007

Cofrestru genedigaeth ar y cyd: hyrwyddo cyfrifoldeb rhieni

YSTADEGAU Gwladol

DWP Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Cofrestru genedigaeth ar y cyd: hyrwyddo cyfrifoldeb rhieni

Cyflwynwyd i'r Senedd gan Yr Ysgrifennydd
Gwladol dros Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Mehefin 2007

Cm 7160 £13.50

ⓗ **Hawlfraint y Goron**

Gellir ailgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio unrhyw Arfbeisiau Brenhinol a logos adran) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei ailgynhyrchu'n gywir ac nid yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y defnydd fel hawlfraint y Goron a dylid nodi teitl y ddogfen. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â hawlfraint yn y ddogfen hon at The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ.
Ffacs: 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog **2**

Pennod 1: Cyflwyniad **3**

Pennod 2: Cofrestru genedigaeth – y sefyllfa bresennol **9**

Pennod 3: Edrych i'r dyfodol **14**

Pennod 4: Mesurau anneddfwriaethol i hyrwyddo cofrestru genedigaeth ar y cyd. **20**

Pennod 5: Trefniadau ymgynghori **22**

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad **25**

Rhagair y Gweinidog

I'r rhai hynny ohonom sydd â'r fraint o fod yn rhieni, magu plentyn yw'r peth pwysicaf a wnawn yn ein bywyd. Hyd yn oed pan fo'r berthynas rhwng rhieni yn methu, mae'r cyfrifoldeb sylfaenol hwn yn para mor bwysig ag erioed.

Sefydlodd cyhoeddiad y Mesur Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill yn gynharach yn y mis hwn y seiliau ar gyfer system newydd o gynhaliaeth plant yn y DU. Dull newydd a fyddai'n grymuso rhieni i gymryd cyfrifoldeb am wneud eu trefniadau cynhaliaeth eu hunain ond sy'n darparu pwerau grymuso sylfaenol cryfach i erlid y rhai hynny nad ydynt yn talu.

Bydd y diwygiadau hyn yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth sicrhau bod mwy o arian yn mynd i gyrraedd mwy o blant. Ond ar adeg pan fo llai o bobl yn penderfynu gwneud y berthynas rhyngddynt yn un ffurfiol trwy briodi, rydym o'r farn fod yn rhaid gwneud mwy i hyrwyddo a chefnogi cyfrifoldeb rhieni ar y cyd.

Mae ymchwil wedi dangos bod tadau sy'n cydnabod geni eu plentyn yn swyddogol o'r cychwyn cyntaf yn fwy tebygol o gadw mewn cyswllt â'r plentyn hwnnw os bydd eu perthynas â mam y plentyn yn methu. Ac os yw'r tad wedi cofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â'r fam ac yn ddiweddarach yn anfodlon talu cynhaliaeth, bydd yn haws i'r fam hawlio cynhaliaeth plentyn sy'n ddyledus iddi.

Mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn tybio bod parau priod yn cofrestru ar y cyd, ond yn achos rhieni nad ydynt yn briod â'i gilydd, rhaid i'r ddau riant gytuno â'i gilydd cyn y gall enw'r tad ymddangos ar y dystysgrif geni. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn nodi argymhellion ar gyfer newid hyn, ochr yn ochr â nifer o fesurau anneddfwriaethol pellach a gynllunnir i gael y nifer mwyaf o gofrestriadau ar y cyd. Rydym wedi bod yn glir drwy'r amser, ni fyddwn yn deddfu nes y byddwn yn sicrhau y gellir rhoi mesurau diogelu digon cryf ar waith i amddiffyn lles plant a mamau sy'n agored i niwed. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r mesurau diogelu hyn a byddwn yn croesawu'ch barn.

Ynghyd â'n diwygiadau i'r system Cynhaliaeth Plant, mae'r argymhellion hyn yn rhoi cynnig i ymgorffori diwylliant newydd yn ein cymdeithas sy'n golygu pwysau mwy cyfartal ar berthynas y ddau riant â'u plant. Maent yn ail-gadarnhau hawliau a chyfrifoldebau rhieni i famau a thadau ac, yn bwysicaf oll, yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn.

Y Gwir Anrhydeddus John Hutton AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
Mehefin 2007

Pennod 1: Cyflwyniad

1. Mae Papur Gwyn ar Gynhaliaeth Plant yn nodi bwriad y Llywodraeth i ymgynghori ar newidiadau i'r sefyllfa bresennol ynghylch cofrestru geni ar y cyd a ffyrdd i annog y ddau riant i gofrestru yn dilyn geni eu plentyn. Ymgymerodd y Llywodraeth i newid y gyfraith yn unig pan roedd yn sicr y gallai roi mesurau diogelu ar waith er mwyn diogelu lles plant a lles mamau sy'n agored i niwed.

2. Mae cofrestru geni gan un rhiant yn unig yn tua 7 y cant (45,000 o blant) o'r holl enedigaethau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae'r ffigur cyfatebol ychydig yn uwch yng Ngogledd Iwerddon, sef tua 9 y cant (2,000). Mae tua 45% o dadau, mewn rhyw fath o gysylltiad â'u plentyn er nad ydynt wedi'u cofrestru ar y dystysgrif geni, serch hynny.[1] Dengys ymchwil fod cofrestru gan un rhiant yn gysylltiedig ag eithriad cymdeithasol. Mae mamau sy'n cofrestru heb y tad yn debygol o fod yn iau ac yn dlotach a lefelau is o gyrhaeddiad addysgol na'r rhai hynny sy'n cofrestru ar y cyd.[2]

3. Cred y Llywodraeth y dylai cofrestru geni ar y cyd fod yn rhan allweddol o'i phenderfyniad "i ddatblygu diwylliant lle mae lles plant o'r pwysigrwydd mwyaf a bod pobl yn glir bod tadolaeth yn ogystal â mamolaeth bob amser yn dod â hawliau a chyfrifoldebau."[3]

4. Mae'n amlwg bod cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd i annog rhieni, tadau yn ogystal â mamau, i chwarae rôl sylweddol ym mywyd eu plant trwy gyfnod eu plentyndod. Gallai mesurau cofrestru geni ar y cyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i dadau gydnabod tadolaeth ar enedigaeth y plentyn ategu at waith traws-lywodraeth cyfredol i wella sgiliau magu plant.

5. Mae'r Papur Gwyrdd hwn yn nodi gofyniad deddfwriaethol newydd ar gyfer cofrestru geni ar y cyd, fel y bydd y ddau riant yn gyfrifol am gofrestru geni eu plant, yn ogystal ag amlinellu mesurau sy'n defnyddio gwybodaeth, addysg a chyngor i gyflawni cofrestru genedigaeth ar y cyd. Credwn y bydd gwneud cofrestru genedigaeth ar y cyd yn fan rhagosod a gwneud mwy i sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o hyn ac yn deall hyn, yn ymgorffori disgwyliad ymhlith y cyhoedd mai'r peth arferol yw i'r ddau riant gydnabod eu plant a bod yn gyfrifol am eu magu. Mae'r rhan fwyaf o dadau yn ymgysylltu'n llwyr i fagu eu plant. I'r tadau nad ydynt yn gwneud hyn, rydym am iddynt sylweddoli bod ganddynt ran ym mywyd eu plant ac i lai o dadau beidio â chael atebolrwydd clir neu ymrwymiad i'w plant.

6. Mae'n hanfodol y diogelir menywod rhag gorfod enwi'r tad os oes achos da dros beidio â gwneud hyn. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y system yn cynnwys mesurau diogelu effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwir bryderon hyn.

7. Mae dull tebyg i'r un a argymhellir yn y Papur Gwyrdd wedi'i fabwysiadu yn Awstralia. Roedd hyn yn cyd-ddigwydd â gostyngiad sylweddol o tua 20 y cant o gofrestru genedigaethau gan un rhiant rhwng 1994 a 2004.

1 *Characteristics of Sole Registered births and the mothers who register them* – ONS (2004)
2 Ceir ychydig enghreifftiau lle mae'r tad yn unig fydd wedi cofrestru'r enedigaeth.
3 A new *system of child maintenance*, Rhagfyr 2006, Papur Gorchymyn CM 6979

8. Ein bwriad yw codi'n sylweddol nifer y genedigaethau a gofrestrir ar y cyd yn y DU. Yn 45 y cant o achosion yn y DU, lle cofrestrir genedigaeth gan un rhiant yn unig, mae'r tad yn parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd â'i blentyn. Cred y Llywodraeth, trwy wneud cofrestru ar y cyd yn fan rhagosod, y bydd cyfran sylweddol o'r plant hyn, os nad yr holl blant hyn, â chofrestriad genedigaeth ar y cyd.

9. Mae'r Papur Gwyrdd yn gofyn am eich barn chi ar ein hargymhellion i gyflawni'r amcan o godi nifer y cofrestriadau genedigaeth ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys symud ymlaen â newid i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chofrestru genedigaeth. Rydym yn ymgynghori ynghylch a yw'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnig mesurau diogelu digon cadarn i'w roi ar waith. Mae'r Papur Gwyrdd yn gosod ystod o fesurau anneddfwriaethol hefyd i hyrwyddo cofrestru genedigaeth ar y cyd ac rydym yn ceisio barn am y rhain. Credwn y dylid rhoi'r mesurau hyn ar waith i gyd-fynd â'r ymagwedd ddeddfwriaethol ac felly elwa i'r eithaf ar nifer y cofrestriadau ar y cyd. Mae'r Papur Gwyrdd yn ceisio'ch barn ar a ddylwn ni fynd ar drywydd ymagwedd ar y cyd neu, os ydych yn credu na fydd y mesurau diogelu a ddisgrifir yn diogelu mamau a phlant sy'n agored i niwed, a ddylem ni ddatblygu opsiynau i hyrwyddo cofrestru ar y cyd yn y fframwaith deddfwriaethol cyfredol.

10. Mae cofrestru genedigaethau a chyfraith teulu yn faterion a ddatganolwyd i Senedd Yr Alban ac felly nid yw'r Papur Gwyrdd hwn yn gymwys i'r Alban.

Pam cofrestru geni ar y cyd?

11. Mae nodweddion y rhieni hynny lle un rhiant yn unig sy'n cofrestru genedigaeth yn dra gwahanol i'r rhai hynny lle mae enw'r ddau riant ar y dystysgrif geni. Dengys ymchwil fod un rhiant yn cofrestru yn fwy amlwg ymhlith mamau iau ac yn enwedig i rai y ganed plant iddynt pan oeddent yn iau nag 21 oed. Mewn achosion lle mamau yn unig a gofrestrodd eu plant, mae'r mamau'n fwy tebygol o fod yn dlawd a chanddynt lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol. Roedd dangosyddion o ganlyniadau'n ymwneud ag iechyd gwael yn achosion un rhiant yn cofrestru a'u plant. Ymhlith y rhai na chafodd unrhyw ofal cyn-geni, roedd tua 18 y cant o famau wedi cofrestru'r enedigaeth heb y tad. Roedd hyn dair gwaith cymaint ag ymhlith mamau a gafodd rywfaint o ofal cyn-geni.

12. Ar hyn o bryd, nid yw'r system cofrestru genedigaethau yn gwneud llawer iawn i hyrwyddo'n weithredol cofrestru geni ar y cyd ymhlith rhieni nad ydynt yn briod â'i gilydd. Bydd gwneud cofrestru genedigaeth ar y cyd yn fan rhagosod yn ffurfio rhan allweddol o grŵp mwy cyfannol o bolisïau traws-lywodraeth i hyrwyddo sgiliau magwraeth da, tadolaeth a chyfrifoldeb rhieni â'r buddion ôl-ddilynol i les plant.

13. Mae'r adeg pan gaiff geni ei gofrestru yn amser delfrydol i adnabod menywod ifanc sydd naill ai'n agored i niwed neu mewn perygl, ac sy'n debygol o gael problemau ôl-ddilynol o ran magu plant, a thadau sydd mewn perygl o ddatgysylltu â bywyd eu plant. Heblaw am hyn, cred y Llywodraeth y dylai gymryd camau i unioni'r hawliau a chyfrifoldebau rhwng parau priod a pharau di-briod er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth mewn perthynas a geir heddiw.

14. Mae cyfres o fanteision o wneud cofrestru genedigaeth ar y cyd yn fan rhagosod ac fe'u nodir isod.

Statws rhieni cyfartal

15. Rhieni, a'r amgylchedd maent yn ei greu yn y cartref, yw'r ffactorau pwysicaf i lunio lles, cyflawniadau a rhagolygon eu plant. Mae tadau a mamau yn bwysig i ddatblygiad plentyn. Caiff perthynas tad a phlentyn, boed iddi fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n brin effaith ddwys ac eang ar blant sy'n para am oes, yn enwedig plant o'r cartrefi mwyaf difreintiedig.

16. Ym mwyafrif y sefyllfaoedd, mae'n fanteisiol iawn i'r plant os bydd y ddau riant yn cymryd rhan yn eu magwraeth. Mae cofrestru genedigaeth ar y cyd yn un o'r camau cyntaf y gall tadau eu cymryd, pa waeth beth fo'r math o berthynas rhyngddo ef a'r fam. Nid oes rhaid i'r rhieni gyd-fyw er mwyn i'r tad gymryd rhan weithredol mewn magu ei blentyn a gall cofrestru genedigaeth ar y cyd adeiladu diwylliant lle mae'r tad yn teimlo bod ganddo bwrpas gwirioneddol a rhan ym mywyd ei blentyn.

Cyfrifoldeb rhiant

17. Mae hawl gan blant wybod bod eu rhieni yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt. Nid yw llawer o dadau di-briod, gan gynnwys tadau ifanc, yn cael eu cofrestru, ond er hynny mae perthynas agos rhyngddynt â'u plentyn a mam eu plentyn. Cred y Llywodraeth y gall cryfhau'r berthynas â'r plentyn trwy gael enw'r tad ar y dystysgrif geni a gellir gwella lefelau cynhwysiant. Cefnogir hyn gan dystiolaeth ymchwil ar brosiect a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau er mwyn annog tadau i gydnabod tadogaeth ar adeg geni eu plentyn.[4]

Talu a derbyn cynhaliaeth

18. Mae canlyniadau ymchwil yn yr Unol Daleithiau yn awgrymu bod cael y tad i gydnabod tadolaeth yn gwella'r lefelau cysylltu ac yn gwella'r posibilrwydd y byddant yn talu cynhaliaeth o ganlyniad. Lle nad oes perthynas rhwng y fam a'r tad, gall cofrestru genedigaeth ar y cyd fod o gymorth i'r fam hawlio cynhaliaeth plant oddi wrth y tad er mwyn talu am fagu'r plentyn.

[4] Garfinkel I ac ati (2005) *In Hospital Paternity Establishment and Father Involvement in Fragile Families.*

Negeseuon clir o ddisgwyliadau

19. Bydd gwneud cofrestru genedigaeth ar y cyd yn safle rhagosod yn gymorth i ymgorffori'r norm diwylliannol, sef y dylai tadau pan enir eu plentyn ddeall bod ganddynt gyfrifoldeb clir am eu plentyn. Nid yw cofrestru genedigaeth ar y cyd yn ateb cyflawn; ni fydd o reidrwydd yn newid agwedd tad nad oes ganddo ddiddordeb yn ei blentyn. Fodd bynnag, trwy annog cofrestru genedigaeth ar y cyd yn gyhoeddus a'i wneud yn ddealladwy, gall y Llywodraeth weithio i newid y rhai hynny sydd ganddynt agwedd mwy goddefol at gofrestru genedigaethau ar y cyd.

Ymyrraeth gynnar

20. Mae'r adeg pan gaiff genedigaeth ei chofrestru yn amser delfrydol i adnabod menywod ifanc sydd naill ai'n agored i niwed neu mewn perygl, ac sy'n debygol o gael problemau ôl-ddilynol o ran magu plant, a thadau sydd mewn perygl o ddatgysylltu o fywyd eu plant.

Diwylliant sy'n newid

21. Mae'n amlwg bod cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd i annog rhieni, tadau yn ogystal â mamau, i chwarae rôl sylweddol ym mywyd eu plant trwy gyfnod eu plentyndod. Cred y Llywodraeth y dylai cofrestru geni ar y cyd fod yn rhan allweddol o'u penderfyniad "i ddatblygu diwylliant lle mae lles plant o'r pwysigrwydd mwyaf a bod pobl yn glir bod tadolaeth yn ogystal â mamolaeth bob amser yn dod â hawliau a chyfrifoldebau."[5]

Annog cyfrifoldeb rhieni – yr amgylchedd ehangach

22. Mae'r papur adolygu polisi ar deuluoedd, a gyhoeddwyd gan Uned Strategaeth y Prif Weinidog ym mis Mai 2007,[6] yn nodi nifer o argymhellion i gefnogi teuluoedd i arfer eu hawliau ac i reoli eu materion eu hunain wrth gadw at eu cyfrifoldebau fel rhieni. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod ganddi rôl bwysig i'w chwarae wrth osod hawliau a chyfrifoldebau rhieni at eu plant a dylai sicrhau bod rhieni yn gwbl ymwybodol ohonynt.

23. Rydym am sicrhau bod holl rieni, gan gynnwys rhieni dibreswyl, yn gallu cael gwybodaeth glir a chefnogaeth er mwyn iddynt allu gwneud eu dyletswyddau. Fel rhan o'i hymrwymiad i gefnogi rhieni, mae'r Llywodraeth yn derbyn bod angen fframwaith cyfreithiol ar rôl rhieni a theuluoedd mewn cymdeithas er mwyn iddi weithredu'n effeithiol. Un o'r camau cyntaf i adeiladu'r fframwaith hwn yw sicrhau bod cofrestru enw'r ddau riant ar ôl geni eu plentyn yn arfer safonol, oni bai y byddai'n afresymol gwneud felly. Mae hwn yn fesur allweddol i fwyhau cyfrifoldeb y rhieni, hyrwyddo ymgysylltu'n gynnar â bywyd eu plentyn ac annog rhieni i gael perthynas barhaus â'u plant.

[5] A new *system of child maintenance*, Rhagfyr 2006, Papur Gorchymyn CM 6979
[6] *Building on Progress: Families* (PMSU) (Mai 2007)

24. Yn ogystal, yn yr adolygiad thematig o blant a phobl ifanc a gyhoeddwyd yn ddiweddar sef *Aiming High for Children: Supporting Families* (sy'n adeiladu ar *Every Parent Matters*) roedd ymrwymiadau clir i gryfhau ffocws y llywodraeth ar rieni a magu plant gyda'r nod o greu canlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Roedd wedi ymrwymo i wneud mwy i gefnogi tadau ac ymgysylltu â hwy a chodi dyheadau rhieni ar gyfer eu plant. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn arwain gwaith traws-lywodraeth i gyflawni hyn.

25. Mae'r ffocws hwn ar dadau yn gydnabyddiaeth o'r dylanwad sylweddol y caiff eu presenoldeb neu eu habsenoldeb ar fywyd plentyn ac ar y canlyniadau i'r plentyn a'r teulu. Cydnabu'r adolygiad thematig yr angen i wneud mwy i ymgysylltu â thadau, yn enwedig gan y gall fod yn her i gynnwys tadau mewn gwasanaethau sy'n targedu teuluoedd. Gall tadau deimlo nad yw gwasanaethau teulu yn berthnasol iddynt hwy, a gellir atgyfnerthu'r farn hon gan staff nad ydynt yn llawn gwerthfawrogi arwyddocâd cynnwys y tad os nad yw'n weladwy i wasanaeth neu os nad yw'n byw gyda'r plentyn.

26. Mae gwaith traws-lywodraeth o'r adolygiad thematig yn ystyried dulliau i ymgysylltu â thadau a'u cynnwys yn fwy effeithiol mewn magu plant trwy gyfnod plentyndod. Mae'n chwilio am gyfle i fesurau cynlluniedig fel y rhaglen ar y themâu o iechyd a thadolaeth gael yr effaith fwyaf. Gallai mesurau cofrestru genedigaeth ar y cyd sy'n sicrhau bod tadau yn cydnabod mai nhw yw'r tad gryfhau'r pecyn traws-lywodraeth yn sylweddol.

Sut gwnaethom gyrraedd y fan hon

27. Mae ymrwymiad y Llywodraeth i gofrestru genedigaethau ar y cyd wedi'i seilio ar ganfyddiad Sir David Henshaw, sef bod "buddion sylweddol ac eang yn bosibl i'w hennill o annog cofrestru genedigaethau ar y cyd"[7] a'i argymhelliad y dylai'r Llywodraeth ystyried y ffordd orau o ddatblygu yn bellach polisi i hyrwyddo cofrestru genedigaethau ar y cyd.

28. Yn y Papur Gwyn ar Gynhaliaeth Plant[8] datganodd y Llywodraeth fod yn "rhaid i'r system cofrestru genedigaethau wneud mwy i hyrwyddo cofrestru genedigaethau ar y cyd yn ymarferol a dylid newid y ddeddfwriaeth bresennol fel bod angen cofrestru enw'r ddau riant yn dilyn geni eu plentyn". Dywedodd y Papur Gwyn, "Bydd y Llywodraeth bellach yn cynnig argymhellion ar gofrestru genedigaethau ar y cyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a ddylai yn y lle cyntaf fod yn destun ymgynghori a deddfwriaeth yn y dyfodol. Y man rhagosod fydd y dylid cofrestru enw'r ddau riant ond, wrth symud hyn yn ei blaen, ni fydd y Llywodraeth yn deddfu nes y bydd yn sicr y gellir rhoi mesurau diogelu cryf ac effeithiol ar waith i ddiogelu lles plant a menywod sy'n agored i niwed. Cawsom ystod eang o farnau mewn ymateb i'r cynnig fel rhan o'n hymgynghoriad ar y Papur Gwyn.

[7] *Recovering child support: routes to responsibility*, Sir David Henshaw, Gorffennaf 2006
[8] A new *system of child maintenance*, Rhagfyr 2006, Papur Gorchymyn CM 6979

29. Cytunodd y Llywodraeth i beidio â symud hyn yn ei flaen fel rhan o'r Mesur Cynhaliaeth Plant[9].Yn lle hynny, mae'r gwaith ar gofrestru genedigaethau ar y cyd wedi'i symud yn ei flaen gan grŵp trawsadrannol, a gadeirir gan Swyddfa'r Cabinet.

30. Mae gweddill y Papur Gwyrdd hwn yn gosod allan ymagwedd y Llywodraeth at wneud cofrestru genedigaeth ar y cyd y man rhagosod. Mae'r Papur Gwyrdd yn gosod allan nifer o gwestiynau ynghylch ein hymagwedd a byddwn yn croesawu ymatebion iddynt.

[9] Mesur Cynhaliaeth Plant a Thaliadau Eraill 2007

Pennod 2: Cofrestru genedigaeth – y sefyllfa bresennol

31. Mae cofrestru sifil genedigaethau, marwolaethau a phriodasau wedi bodoli er 1837. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu'n raddol i addasu i newid cymdeithasol a thechnolegol. Mae'r newidiadau a wnaed wedi'u derbyn gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac mae'r gwasanaeth wedi adeiladu ar ei enw da o gasglu a chofnodi'r ffeithiau yn ddiduedd a chadw cyfrinachedd. Mae derbyn gofyniad cyfreithiol i gofrestru digwyddiadau allweddol bywyd a chydnabyddiaeth o'r manteision a ddaw yn eu sgil i unigolion wedi bod yn allweddol i'r lefelau uchel o gydymffurfiaeth, er mwyn i 99.9 y cant o enedigaethau gael eu cofrestru yn gyson bob blwyddyn.

32. Mae cofrestru genedigaethau yn rhan annatod o gyfrifoldeb rhieni. Mae cyfrifoldebau rheini yn cyfartalu â holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn o dan y gyfraith mewn perthynas â phlentyn ac eiddo (Adran 3 Deddf Plant 1989). Mae hyn yn rhoi'r hawl i rieni wneud penderfyniadau o ran y plentyn ynglŷn ag agweddau allweddol ar eu bywyd (er enghraifft, addysg, crefydd a thriniaeth feddygol) ac mae hefyd yn sicrhau bod yn rhaid ymgynghori â nhw ynghylch nifer o benderfyniadau pwysig (er enghraifft, a yw'r plentyn wedi'i fabwysiadu, a ellir rhoi cyfrifoldeb am fagu'r plentyn i oedolyn arall ac a ellir mynd â'r plentyn y tu allan i awdurdodaeth y DU).

33. Mae gan famau sengl a pharau priod gyfrifoldeb am fagu eu plant fel mater o drefn. Er Rhagfyr 2003 (2002 yng Ngogledd Iwerddon), estynnwyd hyn i dadau a oedd heb briodi os eu henwir ar y dystysgrif eni, naill ai pan gofrestrir yr enedigaeth neu ar ôl hynny. Lle nad oedd y tad na'r fam yn briod â'i gilydd, rhaid i'r ddau gydsynio i'r tad gael ei enwi ar y dystysgrif. Ar hyn o bryd, nid yw'r system gofrestru bresennol yn gwneud fawr iawn i annog rhieni nad ydynt yn briod â'i gilydd i gofrestru genedigaeth eu plentyn ar y cyd.

Tueddiadau mewn cofrestru genedigaethau

34. Yn y DU, mae mwyafrif llethol y tystysgrifau geni yn cynnwys enw'r ddau riant. Fel y nodir uchod, pan fo'r rhieni yn briod â'i gilydd, mae hyn digwydd fel mater o drefn; mewn pob achos arall rhaid i'r ddau riant gytuno cyn y gall enw'r tad ymddangos ar y dystysgrif geni.

35. Mae cyfraddau cofrestru gan un rhiant yn sgil-gynnyrch o nifer y plant a anwyd y tu allan i briodas a nifer y genedigaethau hynny a gofrestrir ar y cyd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y genedigaethau y tu allan i briodas a gofrestrwyd ar y cyd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf.

36. Mae cofrestru unigol (hynny yw, pan fydd enw'r fam yn unig yn ymddangos ar y dystysgrif geni) yn tua 7 y cant o gyfanswm cofrestriadau genedigaethau Cymru a Lloegr.

Ffigur 1



37. Yn unol â'r cynnydd mewn genedigaethau y tu allan i briodas yn ystod y 40 mlynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y genedigaethau y tu allan i briodas a gofrestrwyd ar y cyd, o tua 26,000 yn 1964 i tua 231,000 yn 2005 (fel y dangosir yn Ffigur 1 uchod). Ym 1964, 40 y cant oedd cyfran yr holl enedigaethau y tu allan i briodas a gofrestrwyd ar y cyd ac erbyn 2005 roedd hyn wedi codi i 84 y cant. Fodd bynnag, mae tua 45,000 o blant bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cofrestru gan y fam yn unig.

38. Mae'r gyfradd cofrestru unigol wedi gostwng ychydig yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o 8 y cant i 7 y cant o'r holl enedigaethau. Dangosir y duedd dros y 10 mlynedd diwethaf yn Ffigur 2.

39. Y prif reswm am y cynnydd mewn cofrestru genedigaethau ar y cyd yw bod mwy o bobl yn dewis cyd-fyw a chael plant, lle byddent wedi cael plant o fewn priodas yn y gorffennol. Mae ymagwedd y gymdeithas wedi newid hefyd. Roedd arfer bod cryn dipyn mwy o warth yn gysylltiedig â genedigaethau y tu allan i briodas felly roedd pobl yn llai parod i hawlio mai nhw oedd y rhieni a chofrestru genedigaeth eu plentyn ar y cyd. Ymddengys fod y duedd o gofrestru genedigaeth ar y cyd yn parhau.

Ffigur 2



40. Mae nodweddion y rhai sy'n cofrestru genedigaethau ar eu pen eu hunain yn sylweddol wahanol i'r rhai lle mae enwau'r ddau riant yn ymddangos ar y dystysgrif geni. Archwiliodd astudiaeth fesurol dystiolaeth o rownd gyntaf y Millennium Cohort Study (MCS)[10]ac mae'n mynd ati i broffilio'r nodweddion sy'n peri i famau fod yn fwy tebygol o gofrestru ar eu pen eu hunain. Mae'n cymharu eu nodweddion â'r rhai sy'n cofrestru genedigaeth ar y cyd a mamau priod.

Oedran

41. Dengys ymchwil fod genedigaethau sy'n cael eu cofrestru gan famau yn unig yn fwy cyffredin ymysg mamau iau ac yn arbennig o gyffredin ymysg merched dan 21 oed. Po ieuengaf y fam, fwyaf tebygol y bydd i gofrestru genedigaeth ei phlentyn ar ei phen ei hun; mae 39 y cant o famau sy'n cofrestru ar eu pen eu hunain yn 20 oed neu iau, o gymharu â 2 y cant o famau priod ac 20 y cant o famau y bu iddynt gofrestru ar y cyd. Mae'r gwahaniaethau oedran rhwng y grwpiau'n rhyfeddol. Roedd gan famau priod oedran canolrifol o 31, roedd mamau di-briod yn cofrestru ar y cyd yn 26 oed ac roedd mamau'n cofrestru ar eu pen eu hunain yn 22 oed.

[10] *Sole Birth Registration: Analysis of the Millennium Cohort Study*. Stephen McKay, Institute of Applied Social Studies, University of Birmingham. Bydd yr ymchwil hon yn cael ei chyhoeddi'n hwyrach yn 2007.

Incwm a chymwysterau

42. Mae mamau sy'n cofrestru ar eu pen eu hunain yn fwy tebygol o fod yn dlawd a meddu ar lefelau isel o gyraeddiadau addysgol. Mewn cartrefi ag incwm o lai na £10,400 y flwyddyn, roedd 20 y cant yn cofrestru ar eu pen eu hunain ac roedd 16 y cant o'r rhai ar fudd-daliadau'n perthyn i incwm yn cofrestru ar eu pen eu hunain. Mae deiliadaeth tŷ'n arwydd da o gyfoeth. Roedd 17 y cant o'r rhai sy'n cofrestru ar eu pen eu hunain yn denantiaid yr awdurdod lleol ac roedd 15 y cant yn denantiaid awdurdod tai (ond roedd y mamau ieuengaf yn byw gyda'u rhieni neu mewn gofal). Yn debyg, roedd mamau â lefel uwch o gymwysterau'n llai tebygol o gofrestru ar eu pen eu hunain. Ymysg y rhai a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain, nid oedd gan 16 y cant unrhyw gymwysterau o gwbl.

Iechyd

43. Roedd llawer o ddangosyddion o ganlyniadau'n gysylltiedig ag iechyd drwg ymysg menywod a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain a'u plant. Ymysg y rhai nad oeddent wedi derbyn unrhyw ofal cyn-geni, roedd rhyw 18 y cant wedi cofrestru'r enedigaeth heb y tad. Roedd hyn draean yn uwch na mamau a oedd wedi derbyn peth gofal cyn-geni. Yn ychwanegol, ymysg y rhai a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain, roedd 63 y cant yn ysmygu, o gymharu â 45 y cant o famau di-briod yn cofrestru ar y cyd ac 16 y cant o famau priod. Roedd mamau a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain yn llai tebygol o fwydo o'r fron na mamau eraill ac yn fwy tebygol o gael baban â phwysau geni isel neu isel iawn.

44. Dengys yr ymchwil fesurol uchod fod cofrestru ar eich pen eich hun yn gysylltiedig ag eithriad cymdeithasol. Nid cofrestru ar eich pen eich hun yw achos hyn ac ni fyddai cofrestru genedigaeth ar y cyd yn cynnig ateb llawn ond mae'n amlwg bod cofrestru genedigaeth ar y cyd yn fwy agored i rieni mwy cyfoethog sydd wedi cael addysg dda. Rhaid i ni sicrhau cyfle cyfartal i rieni ym mhob rhan o'n cymdeithas er mwyn iddynt ddeall y manteision o gofrestru genedigaeth ar y cyd.

Ymchwil ansoddol

45. Mae canlyniadau cynnar o astudiaeth ymchwil ansoddol a wneir gyda rhieni di-briod[11] gan y Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil Gymdeithasol[12] yn awgrymu bod dewisiadau a phenderfyniadau am gofrestru genedigaeth plentyn yn bodoli ar sbectrwm. Gellir adnabod tri safle eang ar hyd y sbectrwm hwn. Nid yw'r rhain yn sefydlog o reidrwydd ac maent yn gorgyffwrdd mewn gwirionedd. Gellir mapio profiadau mamau sy'n cofrestru heb y tadau ar y sbectrwm hwn yn y ffyrdd canlynol:

[11] Cyfwelwyd ag unigolion a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain ac ar y cyd, mamau a thadau

[12] Seilir y canlyniadau hyn ar ddadansoddiad cychwynnol o gyfweliadau set data rhannol (29 allan o 45) gyda rhieni di-briod a oedd yn cofrestru ar eu pen eu hunain ac ar y cyd. Mae'r astudiaeth yn un archwiliadol sy'n edrych ar resymau'r unigolion dan sylw. Mae'n mynd yn ei blaen a bydd canlyniadau manwl yn cael eu cyhoeddi'n hwyrach eleni.

a **Dim dewis**
Byddai'r sefyllfa hon yn codi pe na fyddai'r fam yn adnabod y tad neu pe na fyddai'n gwybod lle mae'r tad.

b **Dewis a wneir heb benderfyniad ymwybodol**
Dyma'r achos pe bai'r fam yn dewis cofrestru'r enedigaeth yn absenoldeb proses glir o wneud penderfyniad naill ai gyda neu heb y tad. Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddai hi'n ymdrechu i gysylltu â'r tad ond nid yw hi'n ceisio gwrthwynebu cyfle iddo gofrestru.

c **Penderfyniad ymwybodol**
Mae'n bosibl y byddai mamau sy'n cofrestru heb y tad yn y categori hwn yn gwneud penderfyniad gyda'r bwriad o eithrio'r tad neu ei gynnwys gan fod cofrestru genedigaeth hebddo'n cyd-fynd â'i ddymuniad ef ac sydd i weld y ffordd orau o sicrhau ei fod yn parhau i chwarae rôl ym mywyd y plentyn. Dyma'r achos lle ystyrir bod nodi enw rhywun ar dystysgrif geni'n uniongyrchol gysylltiedig ag olrhain taliadau cynnal plant.

46. Gallai penderfyniad i eithrio'r tad fod yn gysylltiedig â'i ymddygiad (er enghraifft, camddefnyddio cyffuriau), amgylchiadau (er enghraifft, bod yn y carchar) neu oherwydd nad yw'r fam yn credu bod dibynadwyedd y tad yn cyd-fynd â'i disgwyliadau hi o'r hyn sy'n gwneud tad da. Mae'n bosibl bod sefyllfa lle mae mam yn cofrestru ar ei phen ei hun y ffordd orau o gynnwys y tad heb fygythiad o gyfrifoldeb ariannol gorfodedig. Mae'n bosibl bod y rhai sy'n gwneud penderfyniad ymwybodol i eithrio tadau'n cynnwys rhieni mewn perthynas o'r un rhyw. Mae yna bryder yn yr achosion hyn o ran statws a chydnabyddiaeth y cyd-rieni na fu iddynt eni'r plentyn o fewn y broses genedigaethau.

47. Yn ymarferol, mae'n debyg bod y dewisiadau a gymerir a'r penderfyniadau a wneir yn cael eu harwain gan dair set o ffactorau sy'n gysylltiedig â hawliau'r plentyn, chwarae rôl mewn magu'r plentyn a'r berthynas rhwng y rhieni. Mae'r ffactorau hyn, yn eu tro, yn cael eu harwain gan ystod o ddylanwadau gan gynnwys cyllid, profiadau bywyd y rhieni, profiad gyda phlant hŷn, barn y fam o ba mor addas yw'r tad, crefydd y rhieni, disgwyliadau diwylliannol ac enwi'r plentyn.

48. Dengys yr ymchwil fod yna grŵp o famau nad ydynt yn gwneud penderfyniad ymwybodol am gofrestru gyda'r tad neu heb y tad. Os oes gan y tad gyswllt cyson â'r plentyn – hyd yn oed os na chofrestrwyd yr enedigaeth ar y cyd – mae'r Llywodraeth yn credu y byddai'r parau hyn yn fwy tebygol o gofrestru ar y cyd pe bai yna ofyn cyfreithiol neu pe byddent yn cael eu hannog i wneud hynny.

Pennod 3: Edrych i'r dyfodol

49. Mae'r penodau blaenorol wedi amlinellu'r manteision o gael tadau'n chwarae rôl gynnar ym mywydau eu plant. Mae cofrestru genedigaeth yn un o'r cerrig milltir cynnar cyntaf ym mywyd plentyn a allai lunio ei hunaniaeth. Yn ei Phapur Gwyn yn ddiweddar, nododd y Llywodraeth y broses o gofrestru genedigaeth ar y cyd yn faes lle gallai wneud mwy i sefydlu ymdeimlad clir o gyfrifoldeb i dadau di-briod mewn perthynas â lles eu plant.

50. Hoffem osod allan ein syniadau ar sut i ddatblygu system well o gofrestru genedigaethau sy'n ategu at gred y Llywodraeth ei fod yn well i blant os yw'r ddau riant yn eu cydnabod ac yn rhan o'u magwraeth o'r cychwyn. Rydym am amlygu bod y fraint o fod yn rhieni'n ymgymeriad difrifol sy'n rhoi hawliau, dyletswyddau a chyfrifoldebau i famau a thadau.

51. Ni chwblhawyd asesiad manwl o'r costau cysylltiedig hyd yma. Rydym yn cydnabod y bydd y cynigion – deddfwriaethol ac anneddfwriaethol – a osodir allan yn y Papur Gwyrdd yn effeithio ar adnoddau awdurdodau lleol, Gwasanaeth Llysoedd EM a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Byddwn yn sicrhau bod y gost ychwanegol net sy'n cael ei gosod ar awdurdodau lleol yn cael ei hariannu'n llawn fel sy'n ofynnol dan reolau beichiau newydd y Llywodraeth. Bydd ein hymateb i'r ymatebion ymgynghori'n cynnwys asesiad effaith sy'n ystyried y costau hyn yn fanylach.

Egwyddorion ar gyfer cofrestru genedigaeth ar y cyd

52. Mae'r Llywodraeth yn credu na ddylai'r egwyddorion sydd wrth wraidd y polisi cofrestru genedigaethau ar hyn o bryd newid wrth ddatblygu cynigion newydd ar gyfer cofrestru genedigaethau. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

- rhaid i'r ddau unigolyn a enwir fod y rhieni naturiol oni bai bod y gyfraith yn caniatáu bod unigolyn arall yn rhiant cyfreithiol i'r plentyn
- tybir bod gŵr yn dad i blentyn ei wraig oni bai y gellir dangos nad dyma'r achos. Mae'r broses ar gyfer parau priod yn gweithio'n dda ac ni fwriedir ei newid
- gofynnir i barau di-briod sy'n cofrestru ar y cyd ddatgan bod y dyn a enwir yn dad i'r plentyn
- nid yw rhoddwr sberm (rhywun sy'n rhoi trwy sefydliad trwyddedig) yn dad cyfreithiol i'r plentyn hyd yn oed os mai ef yw'r tad naturiol
- y fenyw sy'n cario a geni'r baban yw mam gyfreithiol y baban hyd yn oed os nad y hi yw'r fam naturiol ar ôl defnyddio wy neu embryo a roddwyd
- gall rhai parau o'r un rhyw gael eu cydnabod fel rhieni dan gynigion mewn mesur drafft a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd ar 17 Mai 2007

53. Mae'r Llywodraeth yn dymuno sicrhau na ddylai methiant i gofrestru genedigaeth ar y cyd effeithio ar unrhyw rai o'r buddion sy'n gysylltiedig â chofrestru genedigaeth ar hyn o bryd, yn enwedig cyfrifoldeb rhiant. Dymuna sicrhau hefyd bod uniondeb y gofrestr yn cael ei hyrwyddo.

Cyd-gyfrifoldeb

54. Ein bwriad yw bod deddfwriaeth mewn perthynas â rhieni di-briod yn cofrestru genedigaeth yn adlewyrchu bod magu plant yn ymgymeriad ar y cyd a dylai wneud y ddau riant yr un mor gyfrifol am gofrestru genedigaeth eu plentyn. Dylai'r broses o ddau riant yn cofrestru genedigaeth ar y cyd fod yn gyfreithiol ddiofyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yna amgylchiadau lle nad yw cofrestru ar y cyd yn bosibl nac yn ddymunol. Dylid cael eithriadau i ganiatáu un rhiant i gofrestru'n unigol lle byddai hyn yn diogelu mamau a phlant hawdd eu niweidio. Trafodir eithriadau i'r rheol arferol yn hwyrach yn y bennod hon.

55. Budd allweddol i ymagwedd sy'n gosod yr un cyfrifoldeb ar y ddau riant i gofrestru yw ei bod yn unol â dymuniad y Llywodraeth i hybu tadau cyfrifol. Mae'r cysyniad o wneud rhywbeth ar y cyd yn osgoi dethol mamau a rhoi'r holl gyfrifoldeb o gofrestru iddynt.

Cwestiwn 1

A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion sylfaenol y mae'r Llywodraeth wedi eu datblygu er mwyn i ddau riant gofrestru gyda'i gilydd? A ydynt yn ddigonol ar gyfer system sy'n bwriadu mynnu bod dau riant yn cofrestru genedigaeth gyda'i gilydd?

Cwestiwn 2

Ai gorfodi rhieni i fod yr un mor gyfrifol am gofrestru genedigaeth yw'r ymagwedd iawn?

Eithriadau i'r gofyn i gofrestru ar y cyd

56. Yn debyg i'r system yn Awstralia, deallwn ei fod yn hanfodol diogelu menywod rhag gorfod enwi tad os oes achos da drostynt yn peidio â gwneud hynny. Rhaid i ni sicrhau bod y system yn cynnwys rhagofalon effeithiol sy'n adlewyrchu'r pryderon go iawn hyn. Rydym yn ymgynghori ynghylch a yw'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cynnig digon o ragofalon er mwyn diogelu menywod hawdd eu niweidio a byddwn ond yn deddfu os ydym yn sicr y gallwn roi rhagofalon cadarn yn eu lle.

57. Yn dilyn gwaith y grŵp trawsadrannol ar gofrestru genedigaethau, credwn ei fod yn bosibl cynnwys rhagofalon effeithiol er mwyn sicrhau system ddiogel sy'n gweithio. Gyda hyn mewn golwg, ni fydd cofrestru ar y cyd yn ofynnol os:

- nad yw'r fam yn gwybod neu os yw hi'n ansicr pwy yw tad y plentyn;
- nad yw'r fam yn gwybod lle mae tad y plentyn; neu os
- yw'r tad wedi marw.

58. Yn ychwanegol, credwn y dylai achosion arbennig gael eu heithrio o gyd-gofrestriad. Mae'r rhain yn achosion lle mae:

- mam yn honni bod tad yn neu'n gallu bod yn dreisgar neu ymosodol;
- mam yn honni y cenhedlwyd y plentyn o ganlyniad i drais rhywiol neu ryw nad oedd hi wedi rhoi caniatâd iddo;
- mam yn honni y cenhedlwyd y plentyn o ganlyniad i losgach;
- dyn yn honni nad ef yw tad y plentyn;
- mam yn honni nad yw'r tad sy'n hawlio ei fod yn dad yn dad i'r plentyn.

59. Yn yr achosion hyn, os yw'r naill riant yn parhau i ddymuno cofrestru ar y cyd, y llysoedd yn hytrach na'r gwasanaeth cofrestru ddylai benderfynu ar y mater. Ar hyn o bryd, mae'r llysoedd yn delio â sefydlu pwy yw tadau plant a throsglwyddo cyfrifoldeb rhiant a byddant mewn sefyllfa i archwilio holl ffeithiau unrhyw achosion a phenderfynu ar ganlyniad priodol. Ceir mwy o fanylion am ein cynigion yn yr adran nesaf.

60. Bydd gofyn i'r ymagwedd hon at bolisi cofrestru genedigaethau ar y cyd gyd-fynd yn agos ag amcanion a pholisïau Uned Arddegwyr Beichiog yr Adran Addysg a Sgiliau a bod yn bwynt ymyrryd cynnar ar gyfer cymorth cadarnhaol, ynghyd â sicrhau rhagofalon digonol i ddiogelu mamau a thadau ifainc hawdd eu niweidio.

61. Yn ychwanegol, bydd gofyn cynllunio'r ymagwedd hon er mwyn ystyried y mamau mwyaf bregus y mae'n bosibl y byddant yn deall y cysyniad o orfodaeth ond nid yr eithriadau sydd ar gael, er enghraifft mamau ifainc iawn neu famau â medrau dysgu cyfyng iawn.

Cwestiwn 3

A ydych yn cytuno ein bod wedi adnabod yr eithriadau priodol? A oes yna amgylchiadau eraill lle dylid eithrio rhieni o'r cyfrifoldeb i gofrestru ar y cyd?

Datblygu system newydd o gofrestru ar y cyd – yr ymagwedd ddeddfwriaethol: sut byddai'n cynnig yn gweithio

62. Mae'r rhan fwyaf o rieni di-briod yn cofrestru genedigaethau ar y cyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os yw mam ddi-briod yn mynd i gofrestru ar ei phen ei hun, cynigiwn y canlynol:

    - Lle mae mam neu dad yn hawlio eu bod yn dod o fewn grŵp a eithrir, dylid caniatáu i'r fam gofrestru ar ei phen ei hun;
    - Os nad yw'r tad wedi dod i gofrestru, dylid gofyn i'r fam roi manylion i'r cofrestrwyr o sut i ddod o hyd iddo a'i wahodd i gofrestru oni bai ei bod hi'n rhoi rhesymau sy'n dod o fewn un o'r categorïau o eithriadau;
    - Bydd gan dadau sy'n dymuno cofrestru'r hawl i wneud hynny oni bai bod y fam yn cyflwyno gwrthwynebiad yn unol ag un o'r categorïau o eithriadau;
    - Bydd tad sy'n cydnabod ei fod yn dad i'r plentyn dan sylw ond sy'n gwrthod cofrestru'n agored i'r drefn gosbi bresennol, sef dirwy, sy'n bodoli ar gyfer methu â chofrestru genedigaeth;
    - Os oes anghytundeb ynghylch pwy yw'r tad neu os gelwir ar un o'r categorïau o eithriadau, y llysoedd yn hytrach na'r gwasanaeth cofrestru ddylai benderfynu ar y mater. Felly, os yw mam yn honni bod y tad yn dreisgar ac yn gofyn am eithriad ond bod y tad yn mynnu cael ei enw ar y cofrestriad geni, y llys fyddai'n delio â'r anghytundeb. Ar hyn o bryd, mae'r llysoedd yn delio â sefydlu pwy yw tadau plant a throsglwyddo cyfrifoldeb rhiant a byddant mewn sefyllfa i archwilio holl ffeithiau unrhyw achosion a phenderfynu ar ganlyniad priodol.

63. Mae'r adeg pan gaiff genedigaethau eu cofrestru yn adeg ddelfrydol i adnabod merched hawdd eu niweidio neu sydd mewn perygl sy'n debygol o gael problemau wrth fagu plant yn hwyrach, a thadau sydd mewn perygl o gael eu gwahanu o fywydau eu plant. Mae'n hanfodol ein bod yn ystyried sut gall y gwasanaeth cofrestru ddatblygu ymagwedd fwy effeithiol at lywio teuluoedd sydd mewn angen tuag at gymorth priodol. Credwn mewn datblygu ymagwedd ragweithiol at lywio lle bydd cofrestrwyr yn gofyn i famau hawdd eu niweidio a hoffent gysylltu â chefnogaeth briodol neu gael rhywun i ymweld â nhw.

64. Bydd unrhyw system sy'n gofyn am gofrestru ar y cyd ac sy'n gwella arferion cyfredol yn arwain at fwy o ddyletswyddau i gofrestrwyr a pheth newid i'w rolau. Fodd bynnag, mae'r ymagwedd a gynigiwn yn creu cydbwysedd rhwng y dymuniad i ddosbarthu manteision cofrestru ar y cyd yn helaethach, yr angen i adlewyrchu barn y ddau riant a'r angen i gynllunio system lwyddiannus ar gyfer y gwasanaeth cofrestru.

Ffigur 3

	Tad			
Mam	**Am fod ar y dystysgrif geni ar adeg y cofrestriad**	**Yn oddefol**	**Yn gwadu mai ef yw'r tad**	**Yn derbyn mai ef yw'r tad ond yn gwrthod cydweithredu**
Ddim yn adnabod y tad nac yn gwybod lle mae	Cofrestru ar ei phen ei hun ond os yw'r tad yn datgan mai ef yw'r yn hwyrach gall gael ei chaniatâd i ailgofrestru neu ymgeisio am gyfrifoldeb tad / riant trwy'r llys.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach oni bai ei bod hi'n darganfod pwy neu ble mae'r yn hwyrach ac am iddo fod ar y dystysgrif.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu oni bai ei bod hi'n darganfod yn hwyrach pwy neu ble mae'r ac am iddo fod ar y dystysgrif.
Yn gwybod pwy yw'r tad a lle mae ond ddim eisiau enwi'r tad ar y dystysgrif geni	Os gall hi ddangos ei bod hi'n dod o fewn un o'r categorïau o eithriadau, yna cofrestru ar ei phen ei hun. Byddai raid iddo ef fynd i'r llys wedyn. Os na all hi gael ei heithrio o'r cofrestru ar y cyd, yna cofrestru ar y cyd a bydd raid iddi fynd i'r llys i ddileu ei gyfrifoldeb rhiant.	Os gall hi ddangos ei bod hi'n dod o fewn un o'r categorïau o eithriadau, yna cofrestru ar ei phen ei hun.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach.
Yn gwybod pwy yw'r tad a lle mae ac am iddo fod ar y dystysgrif geni	Cofrestru ar y cyd.	Byddai cofrestrydd yn cysylltu ag ef i ofyn iddo gofrestru.	Gallai'r fam ymgeisio i'r llys i sefydlu pwy yw'r tad.	Gallai'r fam ymgeisio i'r llys i sefydlu pwy yw'r tad.
Yn gwybod pwy yw'r tad a lle mae ond yn oddefol	Cofrestru ar y cyd.	Byddai cofrestrydd yn cysylltu ag ef i ofyn iddo gofrestru.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach.	Cofrestru ar ei phen ei hun a dim gweithredu pellach.

65. Bydd y cynnig hwn yn golygu mwy o waith i'r llysoedd hefyd. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, bydd mwy o waith yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol, Gwasanaeth Llysoedd EM a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i ystyried effaith y newidiadau hyn.

66. Dengys ffigur 3 sut byddai ein hymagwedd yn gweithio mewn sefyllfaoedd gwahanol.

67. Bu i'r Llywodraeth ystyried ymagwedd arall i'r un a osodir allan uchod. Byddai hon wedi bod yn seiliedig ar fodel mwy gweithredol lle byddai disgwyl i gofrestrwyr gynnal cyfweliadau manwl gyda mamau ac, ar adegau, gyda thadau er mwyn darganfod a oeddent yn dod o fewn unrhyw gategori o eithriadau. Er enghraifft, pe bai mam yn darparu gwybodaeth gyfyng neu anghyflawn am hunaniaeth neu leoliad y tad, byddai cofrestrwyr yn cychwyn chwilio am y tad. Gallai ymagwedd fel hon fod wedi arwain at lai o famau'n cofrestru ar eu pen eu hunain, tu hwnt i'r lefelau a ddisgwylir gan y cynigion uchod. Fodd bynnag, roedd y Llywodraeth yn poeni am effaith bosibl yr ymagwedd hon ar rai mamau a'r heriau ymarferol i'r gwasanaethau cofrestru.

68. Roedd y Llywodraeth yn poeni y gallai model mor weithredol arwain at nifer o famau a rhai tadau hawdd eu niweidio'n cael eu dychryn gan lefel uchel o ymyrraeth yn y broses gofrestru. I rai mamau, mae'r amser yn syth ar ôl cael baban yn gyfnod lle maent yn teimlo dan fwy o bwysau na'r arfer.

69. Wrth weithredu i wneud cofrestru ar y cyd yn sefyllfa ddiofyn, mae'r Llywodraeth am sicrhau na fydd lefel yr ymyrraeth yn peidio ag annog mamau i benderfynu cofrestru genedigaeth. Byddai hyn wedi arwain at rai mamau'n colli budd-daliadau nawdd cymdeithasol neu gallai eu plant wynebu problemau wrth gael gwasanaethau'n hwyrach, megis cofrestru gyda meddyg neu ysgol neu gael pasport.

Cwestiwn 4

A yw'r ymagwedd a osodir allan yn cael y cydbwysedd iawn rhwng hawl newydd y ddau riant i gofrestru genedigaeth eu plentyn a'r gofyn i ddiogelu plant a menywod hawdd eu niweidio?

Cwestiwn 5

A ydych yn ystyried bod diryw'n gost ddigonol i dad sy'n derbyn mai ef yw tad plentyn ond sy'n gwrthod cael ei gofrestru ar dystysgrif geni ei blentyn?

Pennod 4: Mesurau anneddfwriaethol i hyrwyddo cofrestru genedigaeth ar y cyd

70. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i annog rhieni i gofrestru genedigaeth eu plentyn gyda'i gilydd. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid newid y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gofyn i enwau'r ddau riant gael eu cofrestru yn dilyn genedigaeth eu plentyn. Mae ystod o fesurau ymarferol y gellid eu datblygu er mwyn cydweddu'r ddeddfwriaeth ar gofrestru ar y cyd a chael sefyllfa lle mae cofrestru genedigaeth ar y cyd yn sefyllfa ddiofyn. Mae'r Llywodraeth yn credu bod y rhain yn hanfodol i lwyddiant ein hymagwedd at gofrestru genedigaethau ar y cyd.

71. Fodd bynnag, deallwn fod gan randdeiliaid amrywiaeth helaeth o syniadau am gofrestru genedigaethau. Felly, mae'r bennod hon yn gofyn am eich barn chi ynghylch ymagwedd ar y cyd. Neu, os credwch nad oes angen yr ymagwedd ddeddfwriaethol neu na fydd y rhagofalon a ddisgrifir yn diogelu mamau a phlant hawdd eu niweidio ac y dylem ddatblygu ein hopsiynau er mwyn hybu cofrestru ar y cyd o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol yn unig.

72. Er mwyn hybu cofrestru ar y cyd, ystyriwn y dylid datblygu mentrau yn y meysydd canlynol.

Newid diwylliant

a **Ymgyrch gyhoeddusrwydd eang i hybu cofrestru ar y cyd**
Credwn y byddai ymgyrch gyhoeddusrwydd sy'n hybu'r manteision o ddau riant yn cofrestru genedigaeth plentyn gyda'i gilydd gan dynnu ar waith ehangach y Llywodraeth ar gyfrifoldeb rhieni yn cynyddu nifer y cofrestriadau ar y cyd.

Ochr yn ochr â chyfryngau traddodiadol, gallai hyn gynnwys addysg ac anogaeth trwy swyddfeydd cofrestru, pecynnau i dadau, meddygfeydd teulu, canolfannau gwaith, dosbarthiadau cyn ac ar ôl geni, y llysoedd a grwpiau gwirfoddol, a byddai'n ffordd bositif o gynyddu'r tuedd presennol mewn cofrestru genedigaethau ar y cyd. Felly, gellid amlygu'r manteision o dadau'n cydnabod mai nhw yw'r tadau trwy raglenni datblygu sgiliau magu plant (a rhaglenni cychwyn ar waith neu hyfforddiant). Gellid annog ailgofrestru genedigaethau a gofrestrwyd heb fanylion tadau ymhellach trwy sicrhau bod mamau sengl yn gadael y swyddfa gofrestru gyda'r wybodaeth a'r ffurflenni sydd eu hangen arnynt i ymgeisio am ail gofrestriad.

b **Diweddaru gwybodaeth am gofrestru genedigaethau ar y cyd**
Ar y cyd â'r ymgyrch gyhoeddusrwydd uchod, dylem ddatblygu llenyddiaeth newydd ar gyfer cofrestrwyr, ysbytai lleol a ffynonellau gwybodaeth eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gofrestru genedigaethau ar y cyd yn fwy dealladwy a chliriach.

Gwella'r broses gofrestru

c **Gweithio er mwyn lleihau twyll sy'n ymwneud ag ailgofrestru**
Yn sgil ymchwil anffurfiol a chyfweld â chofrestrwyr, mae'n ymddangos bod rhai cofrestrwyr yn teimlo'n rhwystredig oherwydd yr hyn y maent yn ei ganfod fel camddefnydd o'r system cofrestru genedigaethau. Gallai'r problemau o leiafrif o rieni sengl yn ceisio defnyddio ailgofrestru fel ffordd o gael ail dystysgrif geni i'w plentyn ac, o bosibl, defnyddio'r ddogfen honno at ddibenion twyllodrus, y mae rhai cofrestrwyr yn credu y gallai hyn ddigwydd, gael eu bodloni trwy wneud mwy o ddefnydd o gofnodion electronig fel nad oes gofyn i'r cyhoedd gyflwyno tystysgrifau. Mae trosglwyddo cofnodion yn electronig yn digwydd i raddau (er enghraifft, hysbysir cronfa ddata pensiynau'r Adran Gwaith a Phensiynau o bob marwolaeth yn wythnosol). Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i wneud cofnodion cofrestru ar gael yn electronig ar gyfer asiantaethau eraill.

Gellid ategu at hyn trwy gyflwyno cofnodion ystadegol mwy trylwyr i Gymru a Lloegr, yn enwedig o ran ailgofrestru, gan adeiladu ar y gwelliannau a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn ddiweddar.

ch **Ymgynghori â chofrestrwyr**
Bwriadwn ymgynghori â chofrestrwyr er mwyn datblygu ffyrdd iddynt weithredu'n fwy rhagweithiol wrth hybu cofrestru ar y cyd.

d Mae prosiect yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol fel rhan o'i gwaith i foderneiddio cofrestru ac archwilio ffyrdd o leddfu'r broses bresennol o ddatgan enw'r tad yn statudol. Ar hyn o bryd, rhaid i gyfreithiwr fod yn dyst i hyn ond gellid estyn hyn i'r fydwraig neu feddyg yn yr ysbyty.

Cwestiwn 6

A ydych yn cytuno â'r gwasanaeth cofrestru'n datblygu rôl llywio ragweithiol ar gyfer mamau a allent fod yn hawdd i'w niweidio?

Cwestiwn 7

A ydych yn credu y byddai'r mentrau anneddfwriaethol a nodir uchod yn hybu cofrestru genedigaethau ar y cyd? A ydych yn credu y dylid cael mentrau ychwanegol yn y maes hwn?

Cwestiwn 8

A ddylem weithio tuag at hybu cofrestru ar y cyd o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol neu a ddylem ddefnyddio mesurau anneddfwriaethol i gydweddu â'r ymagwedd ddeddfwriaethol a osodir allan ym mhennod 3?

Pennod 5: Trefniadau ymgynghori

73. Mae cyhoeddi'r Papur Gwyrdd hwn yn arwydd o ddechrau ein cyfnod ymgynghori ffurfiol yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori. Mae copi o'r cod ar gael ar www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation. Mae'r chwe maen prawf ymgynghori a osodir allan gan Swyddfa'r Cabinet fel a ganlyn:

a ymgynghori'n helaeth trwy gydol y broses a chaniatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod y gwaith o ddatblygu'r polisi;

b bod yn glir am eich cynigion, ar bwy fyddant yn effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymateb;

c sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, cryno ac ar gael yn helaeth;

ch rhoi adborth mewn perthynas â'r ymateb a dderbynnir a sut bu i'r broses ymgynghori ddylanwadu'r polisi;

d monitro effeithiolrwydd eich adran wrth ymgynghori, a defnyddio cydlynydd ymgynghori penodedig; a

dd sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer rheoleiddio gorau, gan gynnwys gwneud Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yw hynny'n briodol.

Sut i ymateb

74. Er mwyn hwyluso'r broses ymgynghori, lluniwyd cyfres o gwestiynau ledled y Papur Gwyrdd. Rhestrir y rhain unwaith eto yn Atodiad A, ynghyd â chyfeiriad yn dangos ar ba dudalen maent yn ymddangos ym mhrif gorff y ddogfen.

75. Mae'r cyfnod ymgynghori'n para 13 wythnos o 26 Mehefin tan 25 Medi. Sicrhewch fod eich ymatebion yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau o 25 Medi. Gallwch gyflwyno eich ymateb trwy lythyr, ffacs neu e-bost at:

Joint Birth Registration
Department for Work and Pensions
5th Floor
The Adelphi
1-11 John Adam Street
London
WC2N 6HT

Gwefan: www.dwp.gov.uk/childmaintenance
E-bost: joint.birthregistration@dwp.gsi.gov.uk
Ffacs: 020 7962 8545

Ffôn testun: 020 7712 2707
Ffôn: 020 7712 2743

76. Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, eglurwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli ac, os yw'n gymwys, sut y casglwyd barn yr aelodau.

77. Byddwn yn cynhyrchu crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwn ynghyd ag ymateb gan y Llywodraeth mewn perthynas â'n camau nesaf, o fewn tri mis o ddod â'r ymgynghoriad hwn i ben.

Cyfrinachedd

78. Mae'n bosibl y bydd gofyn rhoi'r wybodaeth rydych yn ei hanfon atom i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a gellid ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad, ar y cyd ag ymateb gan y Llywodraeth.

79. Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gallai'r holl wybodaeth a gynhwyswyd yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu. Trwy ddarparu gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, byddwch yn deall eich bod yn rhoi caniatâd i ni ei datgelu a'i chyhoeddi. Os nad dyma'r achos, dylech gyfyngu unrhyw wybodaeth bersonol neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os hoffech gadw'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dylech esbonio pam fel rhan o'ch ymateb, er ni allwn warantu y byddwn yn gwneud hyn. Ni allwn warantu bod ymatebion cyfrinachol yn gyfrinachol hyd yn oed os yw eich system TG yn hawlio hyn. Os hoffech drafod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, cysylltwch â:

Charles Cushing
Department for Work and Pensions
Adjudication and Constitutional Issues Information Policy Division
Freedom of Information Unit
1-11 John Adam Street
London
WC2N 6HT

Ffôn: 0207 962 8581
E-bost: Charles.Cushing@dwp.gsi.gov.uk

80. Mae cyfarwyddyd am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael ar www.dwp.gov.uk/pub_scheme.

81. Mae gwybodaeth bellach am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gael ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol sef: www.dca.gov.uk/foi/guidance/exguide/index.htm.

Atborth i'n hymgynghoriad

82. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n gwerthfawrogi atborth am ba mor dda y mae'n ymgynghori â chi. Os oes gennych unrhyw sylwadau am broses yr ymgynghoriad hwn (yn hytrach na'r materion sy'n cael eu trafod), cysylltwch â Chydlynydd Ymgynghori'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yn benodol, dywedwch wrthym os teimlwch nad yw'r ymgynghoriad yn bodloni'r meini prawf a osodir allan ym mharagraff 73. Yn ychwanegol, gwnewch unrhyw awgrymiadau am sut y gellir gwella'r broses ymgynghori. Cysylltwch â:

Roger Pugh
Department for Work and Pensions' Consultation Coordinator
Room 2A, Britannia House
2 Ferensway
Hull
HU2 8NF

Ffôn: 01482 609571
E-bost: Roger.Pugh@dwp.gsi.gov.uk

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad

Codwyd y cwestiynau canlynol yn y Papur Gwyrdd hwn.

- **Cwestiwn 1 (tudalen 15):** A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion sylfaenol y mae'r Llywodraeth wedi eu datblygu er mwyn i ddau riant gofrestru gyda'i gilydd? A ydynt yn ddigonol ar gyfer system sy'n bwriadu mynnu bod dau riant yn cofrestru genedigaeth gyda'i gilydd?

- **Cwestiwn 2 (tudalen 15):** Ai gorfodi rhieni i fod yr un mor gyfrifol am gofrestru genedigaeth yw'r ymagwedd iawn?

- **Cwestiwn 3 (tudalen 16):** A ydych yn cytuno ein bod wedi adnabod yr eithriadau priodol? A oes yna amgylchiadau eraill lle dylid eithrio rhieni o'r cyfrifoldeb i gofrestru ar y cyd?

- **Cwestiwn 4 (tudalen 19):** A yw'r ymagwedd a osodir allan yn cael y cydbwysedd iawn rhwng hawl newydd y ddau riant i gofrestru genedigaeth eu plentyn a'r gofyn i ddiogelu plant a menywod hawdd eu niweidio?

- **Cwestiwn 5 (tudalen 19):** A ydych yn ystyried bod diryw'n gost ddigonol i dad sy'n derbyn mai ef yw tad plentyn ond sy'n gwrthod cael ei gofrestru ar dystysgrif geni ei blentyn?

- **Cwestiwn 6 (tudalen 21):** A ydych yn cytuno â'r gwasanaeth cofrestru'n datblygu rôl llywio ragweithiol ar gyfer mamau a allent fod yn hawdd i'w niweidio?

- **Cwestiwn 7 (tudalen 21):** A ydych yn credu y byddai'r mentrau anneddfwriaethol a nodir uchod yn hybu cofrestru genedigaethau ar y cyd? A ydych yn credu y dylid cael mentrau ychwanegol yn y maes hwn?

- **Cwestiwn 8 (tudalen 21):** A ddylem weithio tuag at hybu cofrestru ar y cyd o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol neu a ddylem ddefnyddio mesurau anneddfwriaethol i gydweddu â'r ymagwedd ddeddfwriaethol a osodir allan ym mhennod 3?

Argraffwyd yn y DU ar gyfer The Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Swyddfa Nwyddau Papur Ei Mawrhydi
ID5606267 06/07

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 75% o gynnwys ailgylchedig o leiaf.

Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office) ac ar gael:

Ar-lein
www.tsoshops.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebwch ar y llinell gymorth Seneddol
0845 7023474
Ebost book.orders@tso.co.uk
Ffôn 0870 240 3701

Siopau TSO
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

Bydd y cyhoeddiad hwn ar-lein ar www.dwp.gov.uk/childmaintenance

Os hoffech gopi o'r cyhoeddiad hwn mewn print mawr neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Tîm Cofrestru Genedigaethau ar y Cyd:

Joint Birth Registration
5th Floor
The Adelphi
1-11 John Adam Street
London WC2N 6HT
Ffôn: 020 7712 2743
Ffôn testun: 020 7712 2707
Ffacs: 020 7962 8545

E-bost: joint.birthregistration@dwp.gsi.gov.uk

Mehefin 2007

ISBN 978-0-10-171602-4
9 780101 716024